# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD GORFFENNAF 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 18fed o Orffennaf 2018** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Aeron M Jones. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Gwilym V Thomas, Gwilym Lloyd Williams a Rhodri Dwyfor. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc, Eleri Thomas. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans, Peter Roberts, Nerys Evans, Michelle Williams, Tom Ellis a Jason Hunt. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi. |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 20.06.18 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan GVT ag eiliwyd gan GW. |
| 5. | **Materion Misol:**<br>**a) Trydan Llanwnda**<br>Derbyniwyd e-bost gan Synergy Networks yn cyfeirio at yr holl waith yr oeddynt wedi ei gwblhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Eglurodd AMJ fod power surge wedi bod yng Nghaernarfon yn y dyddiau diwethaf a bod y pŵer wedi bod i ffwrdd am gyfnod.<br><br>**b) Bysiau**<br>Adroddodd AMJ fod VOSA yn hapus gyda chyflwr y bysiau a byddai bws ychwanegol yn rhedeg yn y bore ar gyfer plant ysgol. Ychwanegodd AMJ ei fod am godi'r mater yng Nghyfarfod Delwedd Dyffryn Nantlle, ond cafodd y cyfarfod ei ohirio ar fyr rybudd.<br><br>**c) Defribrillator Rhostryfan**<br>NE gyda manylion, penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**ch) Graeanu**<br>Cadarnhaodd y clerc y byddai'n ail-gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i dderbyn rhestr o finiau halen yn ardal Llanwnda.<br><br>**d) Mynwent Cefnfaes**<br>Cadarnhaodd BH ei fod wedi ymweld ar fynwent ac wedi cynnal asesiad risg. Paratowyd adroddiad ganddo a dywedodd y byddai'n ymweld â'r fynwent bob 6 mis i ddiweddaru'r adroddiad. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn egluro eu bod wedi diweddaru eu prisiau claddu eisoes ac nid oedd cyfarfod ar y cyd yn fuddiol ar hyn o bryd.<br><br>**dd) Llwybrau a mynediad Glynllifon**<br>Adroddwyd bod diwrnod agored wedi ei gynnal i'r cyhoedd, ond dim i'w adrodd yn ychwanegol ar y pris mynediad a'r llwybrau.<br><br>**e) Fly tipping grid gwartheg Lôn Wen, Rhosgadfan**<br>Nodwyd bod y sbwriel wedi ei glirio erbyn hyn.<br><br>**f) Torri gwair ochr lonydd yr ardal**<br>Derbyniwyd cwyn am y ffordd rhwng Dinas a Rhos Isaf, bod gwair yn tyfu ar ochr y ffordd ag yn creu niwed i geir. Dywedodd AMJ mai un contractwr oedd gan Gyngor Gwynedd i wneud yr holl ardal. Eglurwyd bod modd i drigolion yr |

ardal roi eu cwyn ar safle we CG a byddai mwy o gwynion yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r ffyrdd oedd yn cael eu torri gyntaf.

**ff) NE – twll yn llwybr Bryngwyn**
Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**g) NE – Tir tu ôl i 1 + 2 Tan y Ffordd – Japanese Knotweed**
Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf, gan fod NE yn gwybod lleoliad y tir. Japanese Knotweed yng nghilfan Wernlas Ddu - angen ei adrodd i CG. Japanese Knotweed afon Gwyled yn cael ei fonitro.

**ng) Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor**
AMJ wedi eu diweddaru ag am anfon copi i'r clerc. Bydd angen eu mabwysiadu yn swyddogol yn y cyfarfod nesaf.

**h) Safle we gyfredol + Ymgysylltu gyda'r cyhoedd**
Derbyniwyd dau bris ar gyfer creu gwefan newydd i'r Cyngor. Penderfynwyd cyflogi cwmni Whittens Computers. Cadarnhaodd y clerc y byddai'n cysylltu gyda Steven i ddechrau'r broses. Nodwyd bod angen hysbysu Antur Nantlle o fwriad y Cyngor a therfynu'r gwasanaeth ganddynt hwy.

**i) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023**
Trafodwyd bod angen i'r cynghorwyr holi eu trigolion lleol o beth maent eu hangen. AMJ am drefnu taflen i bawb.

**j) Taclo baw cwn**
Trafodwyd yr angen am fwy o finiau baw cwn. Penderfynwyd holi am brisiau. Mynegodd RD fod biniau cwn oedd yn compostio ar gael a ddim angen eu gwagio, cytunodd i holi am fwy o wybodaeth.

**k) Sedd wag – Ward Dinas**
Nodwyd fod hysbyseb wedi ei roi ar hysbysfwrdd Llanwnda a Saron ar gyfer aelod newydd i Ward Dinas. Dywedodd y clerc y byddai'n cysylltu gyda CG ar ôl yr 20fed o Orffennaf i weld oes oedd angen gofyn am etholiad.

**ll) RD – Gwydrau ar balmentydd Rhosgadfan**
Adroddwyd fod gwydrau wedi eu torri ar balmentydd o flaen yr ysgol a lon Dreflan wrth i bobl gerdded o'r clwb. AMJ i gysylltu gyda CG i gael sweeper i lanhau'r ffordd.

**m) TE – Swydd £100,000 y flwyddyn Cyngor Gwynedd**
Swydd ymgynghoriad £100,000 dros dair blynedd, penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod mis nesaf.

**n) Hyfforddiant y clerc**
Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi mynychu cwrs cyllidol Un Llais Cymru. Gofynnodd y clerc os fyddai'r Cyngor yn fodlon talu neu gyfrannu tuag at gyrsiau yn y dyfodol. Cadarnhaodd BH y byddai'r Cyngor yn fodlon gyda hynny ac hefyd i ad-dalu costau'r cwrs hwn. Cytunwyd i wneud hynny.

**o) Llwybrau - torri gwair Rhandir Mwyn at Gae Haidd**
Derbyniwyd cwyn fod angen torri gwair o Randir Mwyn at Gae Haidd. Cadarnhaodd y clerc y byddai'n cysylltu gydag Wyn Williams i wneud y gwaith. Adroddwyd bod llwybr tu ôl i'r capel wedi ei dorri bellach.

| | |
|---|---|
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) Ardal rhwng Wernlas ddu ar bont<br>CG am anfon arolygwr i archwilio'r system draeniau.<br><br>b) Cae'r Odyn, Rhostryfan<br>Adroddwyd bod CG wedi anfon llythyr at y perchennog er mwyn agor ffoes. Nodwyd bod angen glanhau cilfan wrth giât Cae Coch, Rhostryfan, ger Rhandir Mwyn - clerc i gysylltu gyda CG. |
| 7. | **Is-bwyllgor Mynwentydd – Cyfarfodydd 26.06.18 + 29.06.18**<br><br>**Ymweliad safle 26.06.18 – gyda Chwmni Gwalch**<br>Adroddwyd bod NE, BH, GW a'r clerc wedi cyfarfod gyda chwmni Gwalch yn y fynwent. Trafodwyd toriad a chyflwr y fynwent yn dilyn sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Ni welwyd unrhyw bryder a diolchwyd i gwmni Gwalch am yr holl waith cydwybodol yr oeddynt yn ei wneud.<br><br>**Ymweliad safle – 29.06.18 – Ffion a Douglas o Chwarel Moel Tryfan**<br>Adroddwyd bod ymweliad safle wedi ei gynnal i drafod faint o lechi yr oedd y cyngor ei angen i adeiladu wal y fynwent. Penderfynwyd y byddai'n fuddiol i'r Cynghorwyr ymweld â'r chwarel i ddewis a gweld y llechi. Cadarnhaodd Ffion y byddai'n cysylltu gyda'r perchennog i drafod y mater. Eglurodd AMJ nad oedd angen gofyn am ganiatâd i loriau fynd a thua 300 tunnell o lechi o'r chwarel i bwrpas y cyngor cymuned. Penderfynwyd y byddai'r is-bwyllgor mynwentydd trafod y mater ymhellach. |
| 8. | **Materion Ariannol**<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 18fed o Orffennaf, 2018</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (20.06.18) **27,141.47**<br>-Trosglwyddo £2000 i'r cyfrif cyfredol - 2,000.00<br><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Gorffennaf 2018 <u>£25,141.47</u>**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (20.06.18) **3351.91**<br>+ 1 x claddedigaeth 230.00<br>Trosglwyddo £2000 o'r cyfrif cadw 2000.00<br><br>101077 - Cyflog Clerc Mehefin 2018 447.00<br>Cyllid y Wlad Mehefin 2018 101.00<br>101079 - Cyngor Gwynedd – casglu sbwriel 244.00<br>101078 - Petty cash 350.00<br>101080 - Wyn Williams 950.50<br><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Gorffennaf 2018: <u>£3489.41</u>** |

| | |
|---|---|
| | **<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 18fed o Orffennaf 2018:</u>**<br><br>Lleu – hysbyseb archwilio mynwent 35.00<br>Cyfrifwyr A Hughes-Jones Dyson 192.00<br>Cyflog y clerc Gorffennaf 446.80<br>Cyllid y wlad Gorffennaf 101.20<br>Cyflog y clerc Awst 447.00<br>Cyllid y wlad Awst 101.00<br><br>**Cyfanswm <u>£1323.00</u>**<br><br>Cytunwyd i'r taliadau yma am y mis gyda BH yn cynnig a GT yn eilio.<br><br>Trafodwyd argymhellion a sylwadau'r archwiliad mewnol - penderfynwyd mabwysiadu'r awgrymiadau a chadarnhaodd AMJ ei fod yn y broses o ddiwygio'r polisïau. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Cais cynllunio C18/0539/24LL – Estyniad ochr i sied amaethyddol bresennol, Dinas Farm, Dinas, Caernarfon, LL54 5UB. **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.** |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Cyngor Gwynedd - Hysbyseb cau ffordd o dai Minffordd i Ben y Groeslon ar y 13eg o Awst, 3 diwrnod o waith angen eu cwblhau. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>BH - Bro Wyled, Rhif 12 ymlaen wedi cael byrst 5 x gwaith. Dwr Cymru wedi ei atgyweirio - oes modd i'r Cyngor cysylltu gyda Dŵr Cymru i drefnu i adnewyddu'r beipen yn gyfan gwbl.<br><br>RD – Bont, handrail – cais am grant, Rhodri i anfon e-bost i'r clerc gyda'r manylion.<br><br>GVT - Tŷ preifat ar werth yn Saron, cwn mewn cwt yn y cefn a neb yno i edrych ar eu hol.<br><br>**Dyddiad: 19eg o Fedi - 7.00yh**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |